COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD MAWRTH 14 MAI 2024 AM 14:30

Presennol

Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JC Spanswick | N Farr | W R Goode | J Gebbie |
| HM Williams | | | |

Presennol Ar-lein

JPD Blundell

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Corfforaethol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |
| Anya Richards | Rheolwr Grŵp – Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus |

Datganiadau o Fuddiant

Dim

## 330. Cymeradwyo'r cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 12/03/2024 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 14 Mai 2024 |

## 331. Canlyniad yr Ymgynghoriad ar Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2024 - 2028

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad yn hysbysu'r Cabinet o ganlyniad yr ymgynghoriad ar amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2024-2028 ac i geisio cymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Argymhellion 2024-2028 i'w cyhoeddi.<br><br>Eglurodd bod y Cynllun wedi cael ei ddatblygu i ddangos ymrwymiad y Cyngor i fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, ac mae'r Cynllun wedi'i atodi yn Atodiad B. Roedd yr adroddiad ymgynghori yn Atodiad A yn rhoi eglurhad manwl o farn y rhai a fu'n cymryd rhan. Amlygodd yr ystadegau'n ymwneud â'r ymatebion o wahanol ffynonellau gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol a'r model GovDelivery.<br><br>Roedd yr Aelod Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Lles yn croesawu'r adroddiad a nododd ei bod yn bwysig i ni ymgysylltu gyda'n gweithlu gan fod y mwyafrif ohonynt hefyd yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gofynnodd amrywiaeth o gwestiynau ynghylch sut yr oedd gwybodaeth yn cael ei chasglu gan wahanol grwpiau fel y nodwyd yn adran 3.1 o'r adroddiad, a chafwyd atebion i'r cwestiynau hyn gan y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid yn ogystal â'r Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb.<br><br>Nododd yr Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio, bod adroddiad yn y newyddion ddoe yn nodi y byddai Gweinidog a elwir yn 'Weinidog Synnwyr Cyffredin' yn San Steffan, yn awyddus i wahardd laniardau enfys ac y dylid gadael grwpiau staff wrth ddrws y gweithle. Roedd yn falch iawn o fod yn rhan o sefydliad nad oedd yn cefnogi hyn, ac yn hytrach, yn cefnogi ac yn croesawu amrywiaeth ymysg ei staff.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad ac yn cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Argymhellion 2024-2028 a gynhwysir yn Atodiad B i'w cyhoeddi. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 14 Mai 2024 |

## 332. Polisi Ffioedd a Chostau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet am Bolisi Ffioedd a Chostau diwygiedig.<br><br>Eglurodd, fel rhan o broses o osod y gyllideb ar gyfer y blynyddoedd nesaf, bod y Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddor ganlynol:<br>• Bydd y Cyngor yn ceisio adfer costau gwasanaethau drwy ffioedd a chostau lle bo modd gwneud hynny.<br><br>Felly, roedd pob gwasanaeth yn cael eu hannog i geisio adfer costau'n llawn, heblaw mewn achosion lle ceir penderfyniad penodol i beidio â gwneud hynny, yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor.<br><br>Nododd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid bod y flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi bod yn anodd, yn enwedig gyda lefelau chwyddiant yn amrywio'n sylweddol. Mae hyn wedi sbarduno newid yn y Polisi i gynnig dull mwy hyblyg o adfer costau. Mae'r Polisi Ffioedd a Chostau wedi cael ei ddiweddaru ac mae fersiwn gyda newidiadau wedi'u hamlygu wedi'i hatodi yn Atodiad A, gyda fersiwn lân wedi'i hatodi yn Atodiad B.<br><br>Nododd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau ei fod yn rhan hanfodol o incwm y Cyngor, cyfanswm o oddeutu £40 miliwn. Eglurodd er bod adfer costau'n llawn yn fan cychwyn, byddai deddfwriaeth yn arwain llawer o'r hyn y byddwn yn ei wneud, a byddai hynny'n cynnwys ffioedd gofal cymdeithasol a ffioedd cynllunio ymysg eraill sydd y tu hwnt i reolaeth CBS Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Ffioedd a Chostau diwygiedig yn Atodiad B. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 14 Mai 2024 |

## 333. Adnewyddu Cytundeb Partneriaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y cynigion a restrir yn adran 1 o'r adroddiad. |

| | |
|---|---|
| | Nododd bod CBS RhCT wedi hysbysu'r prif awdurdod, sef Bro Morgannwg, ym mis Ionawr 2024 bod y Cyngor wedi penderfynu peidio â pharhau gyda'r Bartneriaeth o fis Ebrill 2024. Er na fydd CBS RhCT yn rhan o'r Bartneriaeth yn y dyfodol, mae rheolaeth y gwasanaeth wedi sicrhau na fydd hyn yn creu rhwystr rhag cyflawni nodau ac amcanion y Bartneriaeth.<br><br>Ychwanegodd fod y Swyddogion S151 sy'n weddill wedi awgrymu y dylai'r Bartneriaeth fwrw ymlaen ar sail cytundeb tymor hwy, a'r opsiwn dan ystyriaeth yw cytundeb parhaus gydag adolygiad ffurfiol o bartneriaid o leiaf bob pum mlynedd. Cafodd y cynigion hyn eu trafod a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 18 Ebrill 2024.<br><br>Nododd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau ein bod ni wedi cael llwyddiant yma ym Mhen-y-bont gyda gwasanaethau rhanbarthol lle ceir synergedd a gwelliant yn y gwasanaeth. Mae'r hanes rhwng Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg wedi bod yn llwyddiannus iawn, a byddai dymuniad i barhau gyda'r trefniant hwn. Ychwanegodd y dylai unrhyw Awdurdodau Lleol eraill a fyddai'n awyddus i ymuno â'r gwasanaeth hwn gysylltu.<br><br>PENDERFYNWYD: bod y Cabinet yn cymeradwyo'r canlynol:<br><br>Adnewyddu'r Cytundeb Partneriaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol presennol, gyda Chyngor Bro Morgannwg yn parhau fel prif awdurdod, er mwyn atgyfnerthu cadernid busnes.<br><br>Y dylai tri o'r partneriaid gwreiddiol barhau gyda'r trefniant ac arwyddo Cytundeb Partneriaeth newydd - sef Cynghorau Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr.<br><br>Bod y Cytundeb Partneriaeth yn barhaus, gan drefnu adolygiad ffurfiol o'r partneriaid bob pum mlynedd.<br><br>Y cynnig i ganiatáu i bartneriaid ychwanegol ymuno â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fel partneriaid cyfartal yn ddibynnol ar gymeradwyaeth Bwrdd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.<br><br>Bod y cyfrifoldeb dros gymeradwyo telerau terfynol y cytundeb ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 14 Mai 2024 |

**334. Cylch Gorchwyl ar gyfer y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg**

**Grefyddol (SACRE)/ Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg) (SAC)**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc adroddiad yn hysbysu'r Cabinet bod angen cadarnhau cylch gorchwyl diwygiedig y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (SACRE) / y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg) (SAC) (cyfeiriwch at Atodiad 1)<br><br>Eglurodd bod Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn nodi bod 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' yn un o'r pynciau gorfodol sy'n rhychwantu'r continwwm addysg 3 i 16 mlwydd oed. Hyd nes y bydd y gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i gwblhau ym mhob ysgol a lleoliad, mae angen cael SACRE a SAC. Bydd SACRE yn dod i ben yn gyfan gwbl unwaith y bydd y gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru wedi cael ei gwblhau.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn ac yn cadarnhau'r cylch gorchwyl diwygiedig. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 14 Mai 2024 |

**335. Newidiadau Arfaethedig yng ngofynion y Cyngor mewn perthynas â Gwasanaethau Diwylliannol**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad yn nodi'r gostyngiadau arfaethedig ym muddsoddiad y Cyngor mewn ystod o wasanaethau diwylliannol a ddarperir drwy'r bartneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen (AWEN), a'r gostyngiadau cysylltiedig mewn gwasanaethau y bydd angen eu hystyried er mwyn cyflawni'r cynigion ar gyfer gostwng y gyllideb yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan y Cyngor pan gymeradwywyd y gyllideb ar 28 Chwefror 2024.<br><br>Roedd Tabl 1 yn dangos oriau agor a nifer yr ymwelwyr ar gyfer 2022-23 a 2023-24, ac roedd Tabl 2 yn darparu gwybodaeth am rai o'r prif ffigyrau perfformiad ar gyfer y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Roedd manylion pellach ar gael yn adran 3 o'r adroddiad.<br><br>Amlygodd y gallai'r newid mewn oriau gweithredu a gynigiwyd fynd yn erbyn y newidiadau o fewn y Strategaeth. Felly, cynigiwyd y dylid addasu'r argymhellion yn adran 9 o'r adroddiad. |

| | |
|---|---|
| | Mynegodd y Dirprwy Arweinydd ei phryderon ynghylch y gwasanaethau 'Llyfrau ar Olwynion', ac wrth i ni gynnal yr asesiad effaith ar gydraddoldeb, bydd hynny'n amlygu amrywiaeth o faterion a fydd angen sylw.<br><br>Nododd ei bod hi a'r Cynghorydd Farr wedi cwrdd â Chynghorydd Cymuned Llansanffraid-ar-Ogwr y llynedd, ac nad oeddent yn dymuno parhau i dalu am y gwasanaeth llyfrau ar olwynion gan eu bod yn cael anawsterau gyda chostau, felly bydd hyn hefyd yn effeithio ar gyllidebau.<br><br>Ychwanegodd y gallai defnyddio adnodd digidol mewn perthynas â llyfrgelloedd hefyd fod o fudd.<br><br>Ychwanegodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig i ymgymryd â'r ymgynghoriad ac adlewyrchu ar yr ymatebion yn unol â hynny.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>: Cymeradwyodd y Cabinet yr argymhelliad diwygiedig fel y nodir isod:<br><br>Cymeradwyo'r mater yn ymwneud â'r hysbysiadau cyfreithiol sy'n ofynnol ar unwaith i gyflwyno newidiadau cytundebol gydag Awen i dynnu'r cymhorthdal i Theatr Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr a lleihau'r gronfa lyfrau gan £50,000 yn 2024-25, ac i fwrw ymlaen gyda'r gwaith ymgysylltu cyhoeddus gofynnol mewn perthynas â datblygu'r strategaeth ar gyfer canolfannau cymunedol, gwasanaethau llyfrgell a diwylliannol yn y Fwrdeistref Sirol a fydd yn destun adroddiad i'r Cabinet yn y dyfodol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 14 Mai 2024 |

**336. Dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet a Phwyllgor y Cabinet dros Faterion Rhieni Corfforaethol**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y rhaglen o ddyddiadau cyfarfod ar gyfer y Cabinet, Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet a Phwyllgor y Cabinet dros Faterion Rhieni Corfforaethol ar gyfer blwyddyn weithredu 2024-2025.<br><br>Amlygodd y dyddiadau arfaethedig fel y nodwyd yn adran 3 o'r adroddiad, a nododd y byddai'r rhain yn cael eu rhoi yn y calendrau yn ddibynnol ar gymeradwyo'r adroddiad Rhaglen o Gyfarfodydd yn y Cyngor llawn<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>: Cymeradwyodd y Cabinet y rhaglen o gyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgor Cydraddoldeb |

| | |
|---|---|
| | y Cabinet a Phwyllgor y Cabinet dros Faterion Rhieni Corfforaethol, fel yr amlinellir ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad hwn. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 14 Mai 2024 |

## 337. Materion brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 14 Mai 2024 |

Rhoddodd Aelodau'r Cabinet ychydig eiriau o glod i'r Cynghorydd Huw David, gan mai dyma ei gyfarfod Cabinet olaf cyn camu i lawr fel Arweinydd y Cyngor.

I arsylwi trafodaethau pellach a gafwyd am yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 15:40